


Camymddwyn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru: cyfres arholiadau Haf 2019

Uchafbwyntiau

9 Ionawr 2020

Ffigur 1: Nifer y Cosbau a roddwyd i fyfyrwyr




Rhoddyd 200 o gosbau i fyfyrwyr yn Haf 2019, gostyngiad o 5.7% o gymharu â'r 210 o gosbau yn 2018.

Ffynhonnell: 2018 i 2019 - data camymddwyn a gasglwyd gan gyrrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2015 i 2017 - Ofqual

Yn 2019, rhoddyd oddeutu un gosb am bob 5,500 o geisiadau.

Ffigur 2: Y rhesymau dros Gosbi Myfyrwyr



Ffynhonnell: Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Unwaith eto, ffonau symudol yw'r rheswm pennaf dros gosbi. Roedd 54.0% o'r cosbau yn 2019 wedi'u rhoi oherwydd bod myfyrwyr wedi dod â ffôn symudol i mewn i'r ystafell arholiad, cynnydd o'r ffigur o 45.7% yn 2018.

Ynglŷn â'r datganiad

hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno ffigurau sy'n ymwneud â'r cosbau a roddwyd gan fyfyrwyr, gan staff ysgol neu goleg, a chan ysgolion a cholegau yn ystod arholiadau TGAU, UG, a Safon Uwch cyfres arholiadau Haf 2019 yng Nghymru, yn ogystal â'r troseddau a arweiniodd atynt.

Cyhoeddir yr ystadegau hyn fel ystadegau swyddogol.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Ystadegau.....	3
Rhestr termau.....	7
Nodiadau cefndirol....	9

Ystadegydd:

Jonathan Davey 01633 373 261

ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau'r cyfryngau:

Alan Morris 01633 373 216

cyfathrebu@cymwysteraucymru.org



CYFLWYNIAD

Cymwysterau Cymru sydd yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Yn y datganiad hwn, cyflwynwn ddata ar faint o gamymddwyn a oedd yn gysylltiedig â TGAU, Safon UG, a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod cyfres arholiadau Haf 2019. Mae'r ffigurau'n cynrychioli'r nifer o achosion o gamymddwyn a gyflwynwyd gan y cyrff dyfarnu erbyn 14 Tachwedd 2019, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn sicrhau cyfrinachedd, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 12 Tachwedd 2019.

Ers blwyddyn academiaidd 2017/18, ni sydd yn casglu ac yn adrodd ar ddata cymwysterau cyffredinol Cymru. Yn y datganiad hwn ceir cymariaethau â data o'r blynyddoedd blaenorol a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofqual.

CAMYMDDWYN

Mae unrhyw achos o dorri'r rheoliadau a allai danseilio uniondeb arholiad yn gyfystyr â chamymddwyn. Mae enghreifftiau o gamymddwyn yn cynnwys ymdrechion gan fyfyrwyr i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod arholiad, myfyrwyr sy'n dod â deunyddiau anawdurdodedig i arholiad, a methiant gan staff ysgol neu goleg i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r bwrdd arholi. Mae hefyd yn cynnwys achosion yn ymwneud â chamweinyddu - a ddiffinnir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) fel methiant gan staff ysgol neu goleg i lynu wrth reoliadau asesiadau dan reolaeth - gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau nad ydynt yn arholiadau, neu gamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau ac/neu ymdrin â dogfennau megis papurau cwestiynau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, ac ati.

Mae'n ofynnol i fyrdau arholi fod â gweithdrefnau ar waith i ddelio â chamymddwyn gan fyfyrwyr, gan staff ysgol neu goleg, neu gan eraill sy'n ymwneud â darparu cymhwyster. Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau yn cyhoeddi polisiau a chanllawiau¹ ar gamymddwyn sy'n cynnig gweithdrefnau os bydd amheuaeth o gamymddwyn. Ceir rhagor o wybodaeth am gamymddwyn a'n gofynion yn y [nodiadau cefndirol](#).


¹ <https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

YSTADEGAU

CAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR

A YW CAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR AR GYNNYDD?

Ffigur 3: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr fel canran o'r holl gofrestriadau, Haf 2015 hyd at Haf 2019



Rhodddwyd 200 o gosbau i fyfyrwyr am gamymddwyn yn ystod Haf 2019, gostyngiad o 5.7% o'i gymharu â'r 210 a gyhoeddwyd yn Haf 2018. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu un gosb am gamymddwyn gan fyfyrwyr ar gyfer pob 5,500 cofrestrriad


uned/cydran yn Haf 2019 (0.018% o'r holl gofrestriadau). Gwelwyd gwelliant bychan yn Haf 2019 o'i gymharu â Haf 2018, pan roddwyd cosb i 0.020% o'r ymgeiswyr (tua un fesul pob 5,000 o geisiadau).

Yn gyfrannol, gwelwyd mwy o gosbau'n ymwneud â TGAU nag UG a Safon Uwch. Roedd 95.5% o'r holl gosbau a roddwyd yn ymwneud â TGAU, gyda nifer y cofrestriadau TGAU yn 83.5% o holl gofrestriadau uned/cydran Haf 2019.

Rhodddwyd 190 o gosbau mewn perthynas â TGAU -


sef 0.021% o gyfanswm y cofrestriadau TGAU (902,855) - sy'n cyfateb i tua un gosb ar gyfer pob 5,000 cofrestrriad. Mae'r 10 cosb a roddir ar gyfer asesiadau UG a Safon Uwch yn cynrychioli 0.005% o'r holl gofrestriadau UG a Safon Uwch (178,735), neu tua un gosb ar gyfer pob 20,000 cofrestrriad.

Ffigur 4: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr fel canran o'r holl gofrestriadau yn ôl lefel cymhwyster, cymharu Haf 2018 â Haf 2019



Ffynhonnell: Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Ffigur 5: Nifer y cosbau a roddwyd fesul myfyriwr, Haf 2017 hyd at Haf 2019



Ffynhonnell: 2018 i 2019 - Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2017-Ofqual

Derbyniodd 190 o fyfyrwr unigol gosbau am gamymddwyn yn 2019, o'i gymharu â 205 yn 2018. Roedd y mwyafrif a dderbyniodd gosb wedi cyflawni un drosedd (96.9%) ac wedi cael un gosb. Roedd nifer fach o fyfyrwr wedi cyflawni dwy drosedd, gan dderbyn dwy gosb.


BETH YW'R MATH MWYAF CYFFREDIN O GAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR?

Tabl 1: Nifer y cosbau a roddwyd yn ôl categori camymddwyn, Haf 2018 o'i gymharu â Haf 2019

Categori camymddwyn	Nifer y cosbau a roddwyd		Canran o gyfanswm y cosbau a roddwyd	
	2018	2019	2018	2019
Ffonau symudol	95	105	45.7%	54.0%
Cyfathrebu yn ystod arholiad	30	30	13.3%	14.1%
Ymddygiad aflonyddgar	25	25	11.9%	13.6%
Deunyddiau anawdurdodedig eraill	15	10	7.1%	5.1%
Llên-ladrad	10	*	3.8%	2.0%
Deunyddiau amhriodol	10	*	5.7%	1.0%
Rhesymau eraill	25	20	12.4%	10.1%
Cyfanswm	210	200	100.0%	100.0%

Ffynhonnell: Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Ffigur 6: Cyfran y cosbau a roddwyd yn ôl categori camymddwyn, Haf 2018 o'i gymharu â Haf 2019



Ffynhonnell: Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru;


Roedd dros hanner (54.0%) o'r holl droseddau camymddwyn y dyroddwyd cosb amdanynt yn Haf 2019 yn ymwneud â throseddau ffonau symudol. Mae amlygrwydd y categori hwn yn parhau i gynyddu, 45.7% oedd y ffigwr yn 2018. Cyfathrebu yn ystod arholiad (14.1%) ac

ymddygiad aflonyddgar (13.6%) oedd y categorïau mwyaf cyffredin fel arall.


Colli marciau yw'r gosb fwyaf cyffredin unwaith eto, a rhoddwyd 130 o gosbau colli marciau yn Haf 2019, sef 66.2% o'r holl gosbau a roddwyd yn y gyfres arholiadau (cynnydd o'r ffigur o 58.6% yn 2018).

Cafwyd gostyngiad o 43.5% yn nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd o ganlyniad i droseddau camymddwyn yn 2019, gostyngiad o 60 i 35. Daw hyn ar ôl cynnydd sydyn yn nifer y cosbau rhybuddio – cynnydd a gysylltir yn bennaf â throseddau ffonau symudol (gweler Tabl 5) - yn 2018.

Ffigur 7: Nifer y cosbau a roddwyd yn ôl y math o gosb, Haf 2017 hyd at Haf 2019



Ffigur 8: Mathau o gosbau a roddwyd i fyfyrwyr yn ôl categori camymddwyn, Haf 2019



Ceir cyfran uwch o gosbau colli marciau yn y cyfnod hwn oherwydd cosbau llymach ar gyfer troseddau ffonau symudol (72.9% wedi colli marciau, o gymharu â 56.3% yn 2018) ac ymddygiad

aflonyddgar (70.4%, o gymharu â 56.0%). Colli marciau oedd y gosb fwyaf cyffredin ym mhob categori camymddwyn ac eithrio deunyddiau amhriodol a rhesymau eraill. Roedd 45.0% o'r rhesymau eraill – a'r mwyaf cyffredin ohonynt oedd methu â chadw at yr amodau goruchwyllo a ddynodwyd i gynnal diogelwch yr arholiadau – wedi arwain at golli cyfle i gydgrynhoi neu ardystio.

ACHOSION O GAMYMDDWYN GAN GANOLFANNAU A STAFF CANOLFANNAU

PA MOR GYFFREDIN YW ACHOSION O GAMYMDDWYN GAN GANOLFANNAU A STAFF CANOLFAN A CHANOLFANNAU?

Tabl 2: Cyfanswm nifer y cosbau a roddwyd i ganolfannau a staff canolfannau, Haf 2015 hyd at Haf 2019

Math o gamymddwyn	2015	2016	2017	2018	2019
Staff ysgolion neu golegau	10	5	10	20	15
Ysgolion neu golegau	*	5	*	10	5

Ffynhonnell: 2018 i 2019 - Data camymddwyn a gasglwyd gan gyrrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2015 i 2017 - Ofqual

Gall canolfannau gyflawni troseddau camymddwyn hefyd. Mae enghreifftiau o'r math hwn o gamymddwyn yn cynnwys methu â chadw deunydd arholi'n ddiogel cyn arholiad, rhoi cymorth amhriodol i ymgeiswyr, a chamweinyddu. Os bydd hyn yn digwydd, gellir cosbi canolfannau a/neu staff y ganolfan.

Rhodddwyd 15 o gosbau i 15 aelod unigol o staff ysgol neu goleg am gamymddwyn yn ystod Haf 2019. Un gosb a roddwyd i bob unigolyn a gyflawnodd drosedd; yn y blynyddoedd blaenorol bu achosion o un drosedd yn arwain at sawl cosb i'r staff. Y drosedd camymddwyn mwyaf cyffredin gan staff ysgol neu goleg oedd rhoi cymorth amhriodol i fyfyrwr neu fyfyrwr, gan ddilyn yr un patrwm â'r pum mlynedd diwethaf (gweler Tabl 6).

Rhodddwyd 5 cosb i ysgolion a cholegau yn Haf 2019. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â Haf 2018, pan gafwyd 10 cosb. Roedd y cosbau a roddwyd i ganolfannau naill ai'n rhybuddion ysgrifenedig neu'n ofynion i'r ganolfan adolygu eu gweithdrefnau a darparu adroddiad i'r corff dyfarnu yn manylu ar y gwelliannau a oedd i'w gweithredu.

RHESTR TERMAU

Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, sy'n pennu ac yn monitro asesiadau, ac sy'n cyhoeddi dyfarniadau i ddysgwyr, gan roi cydnabyddiaeth ffurfiol i'r canlyniadau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau) yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu.

Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn sefydliadau dyfarnu neu'n fyrddau arholi.

Camymddwyn

Ystyr camymddwyn yw unrhyw weithred, ddiffyg, neu arfer sy'n torri rheoliadau'r corff dyfarnu, neu sy'n gwneud un neu'r ddau o'r canlynol:

- yn peryglu, yn ceisio cyfaddawdu, neu allai beryglu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster, neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif;
- cael effaith andwyol ar awdurdod, enw da, neu hygredd unrhyw gorff neu ganolfan sy'n dyfarnu neu unrhyw swyddog, gweithiwr, neu asiant i unrhyw gorff neu ganolfan ddyfarnu.

Mae camymddwyn yn cynnwys: camweinyddu a pheidio â chydymffurfio â'r rheoliadau; methiant gan ganolfan i hysbysu, ymchwilio, a chyflwyno adroddiad i gorff dyfarnu pan fo honiad o gamymddwyn neu amheuaeth o gamymddwyn o fewn y ganolfan; methiant i weithredu fel sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu; a methiant i gydweithredu ag ymchwiliad corff dyfarnu.

Mae rhagor o wybodaeth am gamymddwyn, manylion am y troseddau gaiff eu hystyried yn gamymddwyn, a'r cosbau perthnasol i'w cael yng nghanllawiau camymddwyn y Cyd-Gyngor Cymwysterau².

Camweinyddu

Methiant i lynu wrth y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau, ac asesiadau di-arholiad, neu gamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau ac/neu ymdrin â phapurau cwestiynau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, cofnodion asesu cronol, ffurflenni hawlio tystysgrifau a chanlyniadau ac ati.

TGAU

Mae Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn ystod eang o bynciau. TGAU yw'r prif gymhwyster cyffredinol lefel 1 a lefel 2 ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed

² <https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer astudiaeth neu hyfforddiant lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio ar ôl TGAU mewn amrywiaeth o bynciau, fel arfer pan fydd dysgwyr yn 16-18 oed, ac maent fel rheol yn golygu astudio cwrs dwy flynedd. Fe'u defnyddir fel sail ar gyfer derbyniadau i addysg uwch, hyfforddiant pellach, neu fynediad i gyflogaeth.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei ystyried yn gymhwyster unigol hefyd. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon mae'n cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau Uwch Gyfrannol gyfrannu at Safon Uwch.

Canolfan

Corff sy'n darparu asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw canolfannau.

Cymhwyster

Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos y cymhwysedd a gyflawnwyd gan ddysgwr.

NODIADAU CEFNDIROL

Ar 21 Tachwedd 2017, cafodd Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017³ ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o ganlyniad cafodd Cymwysterau Cymru eu cynnwys gyda'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007⁴. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer ystadegau swyddogol⁵ ac maent wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Camymddwyn

Caiff y cymwysterau a gwmpesir gan y datganiad hwn eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Mae'r gofynion y mae'n rhaid i'r cyrff dyfarnu eu bodloni wedi'u nodi yn yr Amodau Cydnabod Safonol⁶. Nodir y gofynion sy'n ymwneud â chamymddwyn yn amod A8, sy'n nodi'r canlynol:

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflenwi, a dyfarnu'r cymwysterau y mae'n eu darparu neu'n bwriadu eu darparu.

Mae camymddwyn yn cynnwys unrhyw achos o dorri'r rheoliadau a allai danseilio uniondeb arholiad. Mae enghreifftiau o gamymddwyn yn amrywio o ymdrechion bwriadol gan ymgeiswyr i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod arholiad, i fethiannau anfwriadol gan staff ysgol neu goleg i gydymffurfio â chyfarwyddiadau cyrff dyfarnu.

Mae'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu fynd ati i ymchwilio a rheoli effaith unrhyw gamymddwyn mewn achosion pan fyddent wedi sefydlu bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd. Rhaid iddynt weithredu i atal achosion o'r fath rhag digwydd eto, a chymryd camau sy'n gymesur â difrifoldeb a chwmpas y digwyddiad yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol.

Yn ogystal, mae'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff dyfarnu feddu ar weithdrefnau ysgrifenedig cyfredol sy'n ymwneud ag ymchwilio i achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu honedig. Mae'n ofynnol hefyd i'r cyrff dyfarnu adolygu'r trefniadau sydd gan ganolfannau ar gyfer atal ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu, ac i wneud hynny'n rheolaidd.

Pe byddai honiad neu amheuaeth o gamweithredu mewn cydrannau a asesir yn fewnol neu'n allanol gallai'r corff dyfarnu ymchwilio a gweithredu mewn perthynas

³ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/pdfs/wsi_20171142_mi.pdf

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents>

⁵ <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

⁶ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/>

â'r ymgeiswyr, yr ysgolion, neu'r colegau o dan sylw, a hynny er mwyn diogelu uniondeb yr asesiadau, neu i atal achosion o gamymddwyn. Rhaid i ysgolion neu golegau roi gwybod i'r cyrff dyfarnu perthnasol am bob achos o gamymddwyn a chydweithredu ag ymchwiliadau dilynol. Caiff pob achos o gamymddwyn, boed yn achos y rhoddwyd gwybod amdano gan yr ysgol neu'r coleg neu a nodwyd gan y corff dyfarnu, ei ystyried a'i farnu ar sail unigol gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, a dylai'r canlyniad fod yn gymesur â difrifoldeb yr achos o gamymddwyn fel y pennir gan y corff dyfarnu.

Camymddwyn gan Ymgeiswyr

Fel arfer, bydd cyrff dyfarnu yn gosod sancsiynau a chosbau ar ymgeiswyr a geir yn euog o gamymddwyn. Gall y sancsiynau a'r cosbau hyn gynnwys rhybudd ysgrifenedig, dyfarnu marciau amcangyfrifedig, datgymhwysu o gydran o asesiad, neu ddatgymhwysu o gymhwyster cyfan. Bydd y gosb a roddir yn amrywio, gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y drosedd.

Camymddwyn gan staff ysgolion neu golegau

Fel arfer bydd cyrff dyfarnu hefyd yn gosod sancsiynau a chosbau ar staff ysgol neu goleg a geir yn euog o gamymddwyn. Gall y sancsiynau a'r cosbau hyn gynnwys rhybudd ysgrifenedig am oblygiadau ailadrodd y drosedd, gosod amodau arbennig ar gyfraniad unigolyn i arholiadau ac asesiadau yn y dyfodol, gofyn am hyfforddiant neu fentora penodol fel amod o ymwneud ag arholiadau yn y dyfodol, neu wahardd unigolyn rhag cymryd rhan mewn cyflwyno arholiadau ac asesiadau am gyfnod penodol. Dim ond sancsiynau sy'n ymwneud â gwaith aelod o staff wrth weinyddu eu harholiadau y gall cyrff dyfarnu eu gosod, ni chânt osod sancsiynau sy'n ymwneud â chyflogaeth aelod o staff. Y canolfannau sydd i benderfynu a yw unrhyw sancsiwn ehangach yn briodol (ond nid yw hynny wedi'i gynnwys yn y ffigurau a adroddir yma).

Camymddwyn gan ysgolion neu golegau

Rhaid i gyrff dyfarnu ymchwilio i achosion o gamymddwyn gan ysgolion, colegau, a'u staff, a'u cosbi pan fo angen. Gall achosion o gamymddwyn gan staff ysgol neu goleg amrywio o weithredu gyda'r bwriad o roi mantais annheg i ymgeiswyr mewn arholiad neu asesiad, i anwybodaeth o'r rheoliadau asesu neu eu gweithredu mewn modd amhriodol. Pan fo tystiolaeth bod yr achos o gamymddwyn wedi digwydd oherwydd methiant difrifol wrth reoli, gall corff dyfarnu weithredu sancsiynau yn erbyn yr adran gyfan neu'r ysgol neu'r coleg.

Ffynhonnell data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG, a Safon Uwch wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer yr achosion o gamymddwyn ar gyfer pob cymhwyster a oedd ar gael yn haf 2019. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r data camymddwyn a gyflwynwyd yn berthnasol, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys achosion o gamymddwyn gan fyfyrwyr, gan staff, a chan ysgolion/ colegau yn ôl y math o gamymddwyn a'r cosbau a roddir mewn ymateb i hynny.

Cyfyngiadau'r data

Mae posibilrwydd o wallau yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru warantu bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn chwilio am faterion systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau cywirdeb y data a'i herio neu ei gwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt, ac yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y cynllun cychwynnol ac unrhyw gyfnodau o newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) y dylai'r holl ddata fod yn gwbl gywir, a bod hynny yn amod o'u rheoleiddio;
- Bod yn wiliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynwyd drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio'r darparwyr data os bydd unrhyw ganlyniadau annisgwyl.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

Casglwyd y data ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 14 Tachwedd 2019 ar gyfer data cyfres yr Haf 2019 yn y datganiad hwn.

Cymariaethau

Ers 2017/18, mae cyrff dyfarnu wedi cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag i Ofqual. Dylid dehongli'r cymariaethau â data Ofqual hanesyddol yn ofalus.

Cwmpas Daeryddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer cyfres arholiadau Haf 2019 yn y canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn cynnwys TGAU, UG, a Safon Uwch a gaiff eu sefyll y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, ni fydd y data ar nifer y cofnodion yn cael ei adolygu fel arfer, ond efallai y caiff datganiadau dilynol eu diwygio i fewnosod data hwyr neu i gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data camymddwyn i Cymwysterau Cymru ar gyfer pob cymhwyster rheoleiddiedig a ddsbarthwyd fel TGAU, UG, neu Safon Uwch. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd set gyflawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, er mwyn sicrhau bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol interim Cymwysterau Cymru, mae'r holl ffigurau mynediad wedi'u talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, cânt eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff ffigurau llai na 5 ond yn fwy na 0 eu hamnewid am *. Gwneir hyn i sicrhau nad yw data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae pob canran o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn cyfateb i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Mae defnyddwyr eraill yn cynnwys swyddogion polisi'r llywodraeth, academyddion, ymchwilwyr, a'r cyhoedd. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, bydd yn gwella ein dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i sicrhau bod cyrsiau TGAU, UG, a Safon Uwch yn addas at y diben ac yn cyrraedd y safonau disgwylidig.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol sy'n berthnasol i'r datganiad yma, gan gynnwys:

- Ein cyhoeddiad 'Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau haf 2019 yng Nghymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2'⁷
- Ein cyhoeddiad 'Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2018/19'⁸

⁷<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/provisional-data-on-entries-for-summer-may-2019/>

⁸ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestrriadau-a-chofrestriadau-hwyr-ar-gyfer-tgau-a-safon-uwch-yng-nghymru-blwyddyn-academaidd-201819/>

- Datganiad blynyddol 'Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion'⁹, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Datganiad 'Canlyniadau arholiadau ysgolion Cymru: 2018/2019'¹⁰, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 7 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru¹¹ ac ar ein gwefan ni¹². Mae'r gofrestr QiW¹³ yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a chymwysterau dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Diweddariad nesaf

Rhagfyr 2020 (dros dro).

Adborth defnyddwyr

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn, a gellir ei anfon drwy e-bost at statistics@qualificationswales.org

© (2020) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

⁹ <https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2019>

¹⁰ <https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2018-i-awst-2019>

¹¹ <http://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy>

¹² <https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cyhoeddiadau-sydd-i-ddod/>

¹³ <https://www.qiw.wales/?lang=cy>